



Uchelgais Diwylliannol: Amrywio'r gweithlu treftadaeth trwy gydweithio, cyfleoedd a sgiliau

Cwestiynau Cyffredin

Cefndir

1. Beth yw Uchelgais Diwylliannol?

Mae Uchelgais Diwylliannol yn brosiect a ariennir gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc trwy leoliadau hyfforddi yn y sector treftadaeth ddiwylliannol. Wedi'i gysylltu'n gryf â'r rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant a'r adroddiad *Diwylliant a Thlodi* gan Andrews, bydd yr hyfforddeion yn dod yn bennaf o gymunedau sy'n profi anfanteision cymdeithasol.

2. Sut y dewiswyd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i ddarparu'r prosiect Uchelgais Diwylliannol?

Casglodd a chwblhaodd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol gais am gyllid gan raglen *Sgiliau ar gyfer y Dyfodol* Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r prosiect yn cael arian cyfatebol gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

3. Beth mae Uchelgais Diwylliannol yn gobeithio ei gyflawni?

Bydd y prosiect yn creu 33 o leoliadau hyfforddi 12 mis ar draws Cymru dros gyfnod o bedair blynedd.

4. Sut mae Uchelgais Diwylliannol yn helpu pobl ifanc?

Mae Uchelgais Diwylliannol yn cefnogi pobl ifanc trwy eu helpu i gael mynediad i'r cyfle hyfforddi newydd hwn a fydd yn arwain at gymhwyster, yn ogystal â chymorth gyda chyflogadwyedd a symud ymlaen.

5. Beth fydd hyd y rhaglen?

Bydd Uchelgais Diwylliannol yn cael ei gynnal hyd at fis Mehefin 2022, a bydd 4 carfan o hyfforddwyr yn ystod y cyfnod.

6. Sut fydd Uchelgais Diwylliannol yn helpu'r sector?

Bu i bartneriaid arweiniol y prosiect nodi meysydd penodol o brinder sgiliau lle maen nhw'n credu y gall y prosiect hwn wneud gwahaniaeth. Roedd y rheiny yn cynnwys:

- Y Gymraeg yn y gweithle
- Sgiliau blaen tŷ
- Sgiliau cefnogi busnes
- Sgiliau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol

Byddai'r prosiect hefyd yn ymdrin â materion eraill a adnabuwyd gan bartneriaid:-

- Diffyg amrywiaeth yn y gweithlu mewn sefydliadau neu leoliadau penodol
- Angen cynnig llwybr mynediad at gyfleoedd hyfforddiant/cyflogaeth eraill megis prentisiaethau
- Gwell sefydlogrwydd yn y gweithlu drwy sicrhau bod lefelau cymhwyster yn berthnasol i'r swyddi

7. Beth sy'n digwydd ar ôl 2022?

Ar hyn o bryd, nid oes yna gynlluniau i'r prosiect barhau ar ôl 2022. Fodd bynnag, os yw'n ymddangos bod angen dod o hyd i gyllid parhad ar gyfer y gwaith hwn, yna bydd hyn yn digwydd tua diwedd 2021.

8. Sut mae hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir?

Yn sgil y prosiect hwn, bydd gan genhedlaeth newydd o bobl ifanc y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol i wneud cais am swyddi lefel mynediad gyda'r gweithlu treftadaeth ddiwylliannol. Bydd yna rwydwaith o leoliadau lleol a chenedlaethol yn bodoli sydd wedi cydweithio ar gymhwyster profedig ar gyfer y sector, ac sydd â'r potensial i barhau i gyflwyno'r cymhwyster gyda phartneriaid lleol. Bydd sefydliadau sy'n cymryd rhan yn adolygu eu prosesau recriwtio a'u cyfleoedd lleoliad gwaith eu hunain er mwyn cynllunio ar gyfer gweithlu mwy amrywiol a chynrychioliadol. Bydd gan y safleoedd treftadaeth ddiwylliannol gyswllt cryf â'r Adran Gwaith a

Phensiynau a Chymunedau am Waith er mwyn cefnogi rhaglenni eraill a chynyddu dyheadau pobl ifanc i weithio yn y sector. Bydd y prosiect hefyd yn sefydlu modelau o bartneriaeth leol/ genedlaethol ledled Cymru gyda darparwyr hyfforddiant i gefnogi rhaglenni lleoliadau gwaith yn y dyfodol.

9. Rydych yn dweud bod yna brinder sgiliau yn y sector treftadaeth ddiwylliannol. Pa dystiolaeth sydd gennych fod yna brinder sgiliau?

Mae yna nifer o bapurau ymchwil ar gael sy'n nodi bod yna brinder sgiliau mewn rhai meysydd yn y sector. Yn ogystal, gwnaed darn penodol o waith ymchwil ar ddechrau'r broses ymgeisio a wnaeth nodi meysydd allweddol o fygythiad i'r sector, megis: gweithlu sy'n heneiddio; cyllid cyfyngedig/dim cyllid; ychydig o gyfleoedd lefel mynediad i bobl ifanc gael gwaith yn y sector.

2. Cymhwysra

1. Pwy sy'n gymwys i wneud cais am leoliad hyfforddi gyda'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol?

Rydym yn chwilio am hyfforddeion sydd rhwng 18-24 oed, sydd heb raddio, ac sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

2. I sefydliadau mawr yn unig y mae'r cyfle i gynnig lle i hyfforddai?

Na - mae gennym amrywiaeth o safleoedd treftadaeth ddiwylliannol yn rhan o'r prosiect, o safleoedd sy'n rhan o sefydliadau ymbarél mwy o faint i safleoedd wedi'u cynnal gan y cyngor a safleoedd annibynnol, llai o faint. Mae pob safle treftadaeth yn cynnig ei heriau a gwobrau ei hun, ac rydym eisiau cynnig cymaint o wahanol fathau o safleoedd treftadaeth ddiwylliannol i hyfforddeion â phosibl.

3. Sut fydd pobl ifanc yn cael mynediad i'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol? A oes rhaid iddynt fod yn derbyn y Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)?

Mae'r rhaglen yn cael ei hyrwyddo ledled Cymru trwy Gyrfa Cymru, Cymunedau am Waith, Cydlynwyr Cyfuno a sefydliadau angori cymunedol eraill. Nid oes rhaid i'r bobl ifanc fod yn derbyn budd-daliadau.

4. Pam mai dim ond pobl ifanc, rhwng 18 a 24 oed sy'n cael bod yn rhan o'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol?

Mae'r prosiect wedi'i dargedu at bobl ifanc 18-24 oed gan fod hyn yn cysylltu â chylch gwaith Cymunedau am Waith, sef lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Rydym wedi codi'r isafswm oedran i 18 fel y gall yr hyfforddeion brofi ystod ehangach o dasgau yn y lleoliadau, ac felly ni fydd yna unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gall yr hyfforddeion ei wneud yn y lleoliadau oherwydd eu hoedran.

5. A fydd rhaid i'r bobl ifanc brofi eu bod nhw'n ddi-waith? Os nad ydynt yn hawlio budd-daliadau, sut allan nhw brofi hyn?

Rydym yn hapus i gymryd gair yr ymgeiswyr eu bod nhw'n ddi-waith. Fodd bynnag, bydd angen i'r hyfforddeion fod ar gael am 30 awr yr wythnos er mwyn cael y fwrsariaeth a chwblhau'r hyfforddeiaeth.

3. Cyllid:

1. Sut mae'r bobl ifanc yn cael y fwrsariaeth?

Mae'r fwrsariaeth o £800 yn cael ei thalu bob mis gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, sy'n gweinyddu cyllid y prosiect.

2. A oes rhaid i'r bobl ifanc gael eu cyflogi gan y sefydliad sy'n rhoi lleoliad iddynt?

Nid oes rhaid i'r bobl ifanc gael eu cyflogi gan y sefydliad sy'n rhoi lleoliad iddynt ac ni fyddant yn cael eu hystyried yn gyflogeion yn y lleoliadau lle maent wedi'u lleoli. Byddant yn cael eu cofrestru fel myfyrwyr gyda Choleg Caerdydd a'r Fro hyd ddiwedd eu hyfforddeiaeth.

3. A fydd y sefydliadau'n cael eu hannog neu eu cymell i gynnig cyflogaeth i'r bobl ifanc ar ôl i'r rhaglen ddod i ben?

Ni fydd yna unrhyw gymhelliant ariannol i'r sefydliadau gyflogi'r bobl ifanc, ac ni allwn warantu swydd ar ddiwedd yr hyfforddeiaeth. Fodd bynnag, byddem yn gofyn i'r sefydliad annog a chefnogi eu hyfforddeion i feddwl am yr hyn y gallant ei wneud yn dilyn eu lleoliad (e.e. astudiaeth bellach, prentisiaethau, cyflogaeth).

4. A all sefydliadau gynnig mwy nag un lleoliad hyfforddi?

Gallant, gall sefydliadau fod yn rhan o bob un o'r pedair carfan, a gallant gynnig lle i fwy nag un hyfforddai o bob carfan. Bydd y Cydlynnydd Prosiect yn rhoi cefnogaeth i gynllunio hyn.

4. Cyfleoedd

1. Sut fydd Uchelgais Ddiwylliannol yn helpu gwaith yn ystod pandemig Covid-19?

Mae'r prosiect Uchelgais Ddiwylliannol wedi'i ddiwygio'n llwyr i weithio gan ddefnyddio lleoliadau rhithiol yn hytrach na lleoliadau corfforol. Gellir cyflawni'r cymhwyster fel hyn i raddau helaeth. Bydd hyfforddeion yn dal i ymuno â sefydliad treftadaeth ddiwylliannol ac yn cael eu mentora gan staff o'r safle hwnnw. Bydd hyfforddeion yn dal i fod yn rhan o'r gwaith y mae'r safleoedd yn ei gynhyrchu. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys hwn bellach ar-lein, gyda digwyddiadau a gweithgareddau'n digwydd mewn gofod rhithiol yn hytrach nag un ffisegol. Gall hyfforddeion barhau i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno gweithgareddau, yn ogystal â chael eu cynnwys yn y gwaith o redeg y safleoedd o ddydd i ddydd. Bydd hyn i gyd yn cael ei wneud yn rhithiol, o gartref, sef sut mae pawb yn gweithio ar hyn o bryd. Ar ôl i safleoedd ddechrau ail-agor, mae cyfle i hyfforddeion fynychu'r safleoedd yn bersonol a chwblhau unrhyw agwedd o'u cymhwyster sydd angen ei wneud yn y ffordd yma. Bydd asesydd y coleg yn cynnal sesiynau Teams wythnosol gyda hyfforddeion, ac mae holl waith y cymhwyster yn cael ei uwchlwytho i OneFile a gellir ei adolygu gan yr asesydd yno.

2. Pa bryd fydd y cyfleoedd i bobl ifanc yn dechrau?

Bydd y bedwaredd garfan o hyfforddeion yn dechrau ym mis Mehefin 2021 ac yn gorffen ym mis Ebrill 2022.

3. Beth yw'r cymhwyster?

Bydd yr hyfforddeion yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol. Bydd yr unedau y bydd yr hyfforddeion yn eu cwblhau fel rhan o'r cymhwyster yn cwmpasu meysydd megis iechyd a diogelwch, gwasanaeth

cwsmeriaid, marchnata, gweithgareddau dysgu a hunaniaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol.

4. Sut fydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau nad yw tloedi digidol yn dod yn rhwystr i rywun sy'n gwneud cais neu'n ymgymryd â'r prosiect?

Bydd pob cyfweiliad yn cael ei wneud drwy feddalwedd galwad fideo fel Zoom, Skype neu Teams. Os nad oes gan unrhyw ymgeiswyr fynediad at gyfrifiadur neu gysylltiad rhyngrwyd dibynadwy, yna byddwn yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn gallu cael mynediad at gyfrifiadur yn ei ganolfan waith neu lyfrgell leol. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus a wahoddir i ymuno â'r prosiect yn cael gliniadur er mwyn ymgymryd â'u lleoliadau rhithiol a chwblhau eu gwaith cymhwyster. Os bydd unrhyw un yn cael trafferth cael mynediad at y rhyngrwyd, gall Sgiliau Creadigol a Diwylliannol helpu gyda hyn hefyd.

5. Sut fydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau na fydd y safleoedd cynnal yn cymryd mantais o bobl ifanc?

Mae staff o'r sefydliadau a fydd yn treulio'r rhan fwyaf o amser gyda'r dysgwyr wedi cael hyfforddiant ar yr hyn sydd ynghlwm â mentora hyfforddai yn eu gweithle, a sut orau i gefnogi person ifanc ar gymhwyster dysgu yn y gwaith fel ein un ni. Mae'r sefydliadau yn deall yn llawn y bydd yr hyfforddeion yn fyfyrwyr ac nid yn gyflogeion, ac felly ni ddylent gael y lefel o gyfrifoldeb a fyddai'n cael ei roi i aelod o staff llawn amser. Ni fydd yr hyfforddeion yn cymryd lle aelodau o staff llawn amser sy'n absennol am unrhyw reswm. Bydd Coleg Caerdydd a'r Fro a Chydlynnydd y Prosiect mewn cysylltiad cyson â'r lleoliadau a'r hyfforddeion i sicrhau bod y ddau yn hapus a bod y lleoliad yn gweithio'n dda.

6. Beth sy'n digwydd os yw rhywun yn gadael y lleoliad yn gynnar?

Os bydd person ifanc yn gadael ei leoliad yn gynnar yna bydd y taliadau bwrsariaeth yn dod i ben, mae'n annhebygol y bydd ef/hi yn cwblhau'r cymhwyster ac felly ddim yn gymwys i gael y taliad cwblhau.

7. A all sefydliad nodi yn yr hysbyseb ei fod yn chwilio am rywun sydd â set benodol o sgiliau a phrofiad?

Y prif faen prawf ar gyfer pobl ifanc yw eu bod rhwng 18 a 24 oed, heb raddio a ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ar wahân i hynny, rydym yn gofyn iddynt ddangos pam eu bod eisiau'r lleoliad. Mae gan sefydliadu'r dewis i nodi a ddylai'r person ifanc fod yn siaradwr Cymraeg neu beidio.